**YMATEB CYNGOR GWYNEDD I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG AR EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL 2011/12**

**Gwybodaeth bellach yn ofynnol**

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| CH.2 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i adolygu a safoni enwau lleoedd yng Ngwynedd cyn diwedd cyfnod y Cynllun: Darparwch ddiweddariad o'r cynnydd a wnaed gyda'r gwaith hyd yma | Bu trafodaethau rhwng Grŵp Tasg o'r Is-Bwyllgor Iaith a Thîm Safoni Enwau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 05/12/08, a chyflwynwyd adroddiad o'r cyfarfod i'r Is-Bwyllgor llawn ar 27/01/09. Cofnodwyd fel penderfyniad:<br><br>a) Cymeradwyo cofnodion y Grŵp Tasg a gynhaliwyd ar 5 Ragfyr 2008<br>b) Edrych ar y fannod yn y ffurfiau a gyflwynwyd a gwahodd y Tîm Safoni Enwau yn ôl am drafodaeth bellach yn y lle cyntaf.<br><br>Ni osodwyd amserlen ar gyfer y gwaith yma, ac o edrych ymhellach ar y cofnodion 7 enw sydd dan sylw ar gyfer trafodaethau pellach.<br><br>Yn amlwg, mae'n amserol i ni edrych ar hyn drachefn, ac eisoes cafwyd cais am adroddiad erbyn y Pwyllgor Iaith nesaf ym mis Hydref i gyflwyno "adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn gosod y cefndir ac yn nodi ffynonellau'r enwau safonol a'r gofynion o safbwynt enwau strydoedd, tai, ac ati." Fel rhan o'r adroddiad yma, byddwn hefyd yn cyfeirio at enwau lleoedd, ac yn gofyn am arweiniad pellach gan y Pwyllgor Iaith. |

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| D.1 Nodwn fod y Cyngor wedi mabwysiadu cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Sgiliau Iaith. Oherwydd yr oedi wrth fabwysiadu'r cynllun, mae rhai dyddiadau ar gyfer cyflawni camau gweithredu wedi llithro: Darparwch gopi o'r cynllun gweithredu a nodwch y dyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu | Gweler Atodiad 1 |
| 5.A Darparwch y nifer o swyddogion di-Gymraeg sydd wedi eu penodi i swyddi "Cymraeg hanfodol a'r nifer sy'n mynychu'r hyfforddiant | Ar gyfer y cyfnod Ionawr- Rhagfyr 2011 (sef y cyfnod dan sylw yn Adroddiad y Tiwtor Iaith o fewn yr Adroddiad Monitro), penodwyd 2 Swyddog nad oedd yn cyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi ( noder nad yw hyn yn golygu o angenrheidrwydd eu bod yn ddi-Gymraeg).<br><br>Gallwn gadarnhau eu bod wedi cael eu cyfeirio ymlaen i dderbyn hyfforddiant iaith, er bod un bellach wedi gadael cyflogaeth y Cyngor.<br><br>Noder bod llawer mwy na 2 swyddog wedi'u cyfeirio ar gyfer hyfforddiant o fewn y cyfnod dan sylw, ond dyma'r unig esiamplau a gyfeiriwyd yn sgil methu a chyrraedd y lefel iaith benodol yn dilyn eu hapwyntiad |

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| 5.B Darparwch nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a chyfanswm aelodau staff yr adrannau | Yn anffodus, rydym yn cael trafferthion gydag adrodd yn llawn ar DIG 5. Mae'r ffigyrau a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith ac eto eleni i'r Comisiynydd wedi bod yn anghyflawn ac yn seiliedig ar yr hyn mae'r Penaethiaid yn adrodd.<br><br>Yn unol â dymuniad y Comisiynydd, nodir isod, fesul Adran nifer a chanrannau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n rhaid pwysleisio nad yw'r ffigyrau yma o angenrheidrwydd yn gywir, gan eu bod yn cyfuno'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Penaethiaid (all fod yn anghyflawn) gyda data cyffredinol am niferoedd staff a ddelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Cyflwynir yr isod felly fel amcangyfrif o'r sefyllfa yn unig:<br><br>**Addysg:** Cyfanswm-2375 % yn siarad Cymraeg- 100%<br>**Adnoddau Dynol;** Cyfanswm- 91 % yn siarad Cymraeg- 100%<br>**Cyllid:** Cyfanswm-182 % yn siarad Cymraeg- 98.9%<br>**Darparu a Hamdden:** Cyfanswm- 1806 % yn siarad Cymraeg- 87%<br>**Democratiaeth a Chyfreithiol:** Cyfanswm 67 % yn siarad Cymraeg- 98.5%<br>**Economi a Chymuned:** Cyfanswm 283 % yn siarad Cymraeg- 92.9%<br>**Gofal Cwsmer:** Cyfanswm- 189 % yn siarad Cymraeg- 98.9%<br>**Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai:** Cyfanswm- 748 % yn siarad Cymraeg 85.2%<br>**Priffyrdd a Bwrdeistrefol:** Cyfanswm- 591 % yn siarad Cymraeg- 99.2%<br>**Rheoleiddio:** Cyfanswm- 210 % yn siarad Cymraeg- 97.6<br>**Strategol a Gwella:** Cyfanswm- 83 % yn siarad Cymraeg- 100%<br>**Ymgynghoriaieth:** Cyfanswm- 158 % yn siarad Cymraeg- 82.9% |

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
| --- | --- |
| 6.A Darparwch gopi o'r templed asesiad effaith cydraddoldeb | Amgaeir copi o'r templed (Atodiad 2) |
| 6.A Rhestrwch y polisïau neu gynlluniau y cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb arnynt yn ystod y flwyddyn | Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012, cyflawnwyd asesiad effaith lawn ar y canlynol:<br><br>• Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol<br>• Polisi Gosod Tai Cyffredin<br>• Dyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian a Phant yr Eithin<br>• Dyfodol Cartref Preswyl Hafod y Gest<br>• Cynllun Comisiynu Pobl Hyn<br>• Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu<br>• Canllawiau Atal Bwlio (Gwasanaethau Arbenigol Plant)<br>• Ad-Drefnu Ysgol Coed Menai<br>• Newidiadau Ariannol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl<br>• Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn<br>• Amserlenni Bws<br>• Trefn Osod Awel y Coleg<br>• Asesiad ar Benderfyniadau Ariannol 2012-13<br>•<br>Noder mai dyma'r asesiadau lle bu cyd-weithio a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith; fe all rhai gwasanaethau fod wedi cynnal asesiadau ar liwt eu hunain.<br>Dylid nodi'n ogystal fod llawer o asesiadau a gychwynnwyd yn ystod y cyfnod dal ar y gweill ac felly heb eu nodi uchod, gan fod angen ystyried materion cydraddoldeb ac iaith wrth gychwyn cynllunio polisi.<br>Ein bwriad at y dyfodol yw cynyddu'r nifer o asesiadau effaith a gynhelir a sicrhau gwell rheolaeth o'r broses wrth i adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Cabinet. |

**Cwestiynau mae'n rhaid eu hateb**

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| B.2 Nodwn fod y Cyngor wedi dod i gytundeb gyda'r gwasananeth iechyd i gyd ddarparu rhai gwasananethau arbenigol ar gyfer plant: Eglurwch yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth gyd ddarparu'r gwasananethau hyn | Gyda phwyslais cynyddol ar gyd-ddarparu o fewn y sector gyhoeddus, mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y gall hyn arwain at heriadau sylweddol o safbwynt cydymffurfio a gofynion ein Cynllun Iaith, yn enwedig gan ein bod yn rhoi'r pwyslais ddim yn gymaint ar ddarpariaeth ddwyieithog, ond yn hytrach ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni.<br><br>Mae'r Cynllun Iaith yn cyfarch y peryg yma, ac yn datgan ein hymrwymiad i sicrhau nad yw trefniadau cyd-weithio neu gyd-ddarparu yn arwain at unrhyw ddirywiad o safbwynt ein darpariaeth iaith Gymraeg.<br><br>Gall y gofynion amrywio o roi'r testun Cymraeg yn gyntaf i sicrhau darpariaeth ddigonol gan gyrff sydd heb gymaint o staff sy'n gallu siarad Cymraeg<br><br>O safbwynt ein trefniadau gwasanaethau Arbenigol Plant (Derwen) Mae'r Cytundeb yn cynnwys cymal sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn unol â a dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth. Ond, gan fod gofynion Cynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn wahanol i'w gilydd, penderfynwyd byddai angen ddogfen gefndir fyddai'n amlinellu'r gofynion a'r trefniadau'n glir.<br><br>Bu Swyddogion o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod i drafod a drafftio dogfen "Canllawiau Iaith" (Atodiad 3) sy'n cynnwys arweiniad mwy manwl ac ymarferol.<br><br>Derbyniwyd y Canllawiau fel dogfen interim gan Fwrdd Rheoli'r prosiect ar 25/07/12. Byddwn yn ail-edrych ar y cynnwys a'r ymrwymiadau wrth i'r ddau gorff baratoi ar gyfer cydymffurfio a'r Safonau Iaith. |

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| D.3 Ceir ymrwymiad yn y Cynllun Iaith i gynnal 4 sesiwn ymwybyddiaeth iaith y flwyddyn i staff rheng flaen nad ydynt yn staff gofal neu weithwyr ieuenctid. Nodwn mai dwy sesiwn yn unig a ddarparwyd eleni (i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid): Eglurwch y trefniadau sy'n bodoli i sicrhau y cynhelir 4 sesiwn ymwybyddiaeth y flwyddyn, a pham na ddigwyddodd hynny eleni | Yn y gorffennol, y bwriad oedd cynnig y cwrs ymwybyddiaeth i Wasanaethau penodol, ac yn enwedig y Gwasanaethau rheiny lle cafwyd tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, cafwyd trafferth gyda'r drefn yma:<br><br>• Yn gyntaf, pur anaml cafwyd enghreifftiau o Wasanaethau neu Unedau cyfan lle roedd yna broblem. Gan amlaf, ceir hyn mewn gweithleoedd sydd ymhellach o'r prif swyddfeydd (e.e. Canolfannau Hamdden, Tîm Cyfiawnder Ieuenctid).<br>• Gall fod yn anodd i Wasanaethau ryddhau nifer sylweddol o staff am hanner diwrnod i fynychu cwrs.<br><br>Yn amlwg, rydym yn adnabod yr angen i gynnig rhagor o gymorth i'n staff ddeall yr egwyddorion tu ôl i'n Cynllun Iaith, ac yn awyddus i gynnig hyfforddiant i gymaint â phosib. Bellach, mae'r cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ar Raglen Ddysgu Corfforaethol y Cyngor, a byddwn yn cynnig y cyrsiau i bob aelod o staff ar draws yr holl Adrannau ar adegau rheolaidd, gan anelu at gynnig o leiaf 4 sesiwn y flwyddyn, yn unol â'n hymrwymiad. Credwn fod y dull yma yn un fwy hyblyg ac yn un sy'n cynnig y cyfle i ystod ehangach o'n staff.<br><br>Dan y drefn newydd, byddwn yn parhau i geisio adnabod unrhyw feysydd gydag anghenion ymwybyddiaeth penodol, ac un ai'n awgrymu i Reolwyr anfon eu staff ar y cyrsiau sydd wedi'u trefnu neu'n darparu sesiynau arbennig i'r Gwasanaeth neu Uned dan sylw. |

| SYLWADAU'R COMISIYNYDD | YMATEB CYNGOR GWYNEDD |
|---|---|
| Eglurwch beth sy'n rhwystro'r Cyngor rhag sefydlu trefniadau dros dro er mwyn adrodd ar DIG 5 yn llawn hyd nes y cyflwynir system adnoddau dynol cyfrifiadurol | Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Monitro, ni fydd system integredig cyflogau ac adnoddau dynol mewn lle cyn Mawrth 2014, ond yn y cyfamser, anelwn at wella ein trefniadau adrodd dros-dro.<br><br>Byddwn yn holi gwybodaeth fwy penodol gan benaethiaid ar sgiliau ieithyddol eu staff a hefyd gobeithiwn erbyn yr adroddiad nesaf ddarparu trosolwg o'r gofynion ieithyddol sydd ynghlwm a swyddi.<br><br>Mae'r drefn yma ar hyn o bryd yn cael ei diweddaru yn sgil pennu matrics sgiliau iaith newydd (gweler hefyd Atodiad 1), ac er na fydd hyn o angenrheidrwydd yn rhoi pictiwr o'r gwir sefyllfa, mae'n gam allweddol o safbwynt cymharu'r gofynion gyda'r sgiliau pan ddaw'r system integredig i rym. |